Adroddiad Ymgynghoriad Ysgolion Saltney



Crynodeb ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
School Planning and Provision

Diolch!



Diolch i bawb o Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a Sir y Fflint Ifanc a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad a rhannu eu safbwyntiau.

Mae eich barn yn bwysig ac wedi helpu Cyngor Sir y Fflint i ddeall beth sy'n bwysig i blant a phobl ifanc.

Am Beth oedd yr Ymgynghoriad yn Sôn?

Gofynnodd Cyngor Sir y Fflint i bobl am eu safbwyntiau ynglŷn â chynnig i:

- Gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood
- Creu un ysgol gynradd newydd ar gyfer plant 3 i 11 mlwydd oed
- Gweithredu'r ysgol newydd ar safleoedd presennol y ddwy ysgol i ddechrau
- Adeiladu adeilad ysgol newydd sbon yn y dyfodol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng Mehefin a Gorffennaf 2026.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto.

Pwy Roddodd eu Safbwyntiau?



Bu'r Cyngor yn clywed gan:

- Ddisgyblion
- Rhieni a gofalwyr
- Staff ysgol
- Llywodraethwyr
- Undebau Llafur
- Aelodau o'r gymuned
- Sefydliadau eraill.

Cafwyd cyfanswm o **221 o ymatebion** yn ystod yr ymgynghoriad.

Beth Ddywedodd Pobl?

Yr oedd llawer o bobl yn poeni am:

- Deithio ymhellach i'r ysgol
- Diogelwch ar y ffyrdd a llwybrau cerdded

- Y posibilrwydd o golli ysgol gymunedol
- Yr effaith ar blant iau a phlant ag anghenion ychwanegol
- Colli teimlad a hunaniaeth arbennig eu hysgol bresennol
- A ellid gwella'r ysgolion presennol yn hytrach na hyn
- Dywedodd llawer o bobl wrth y Cyngor eu bod yn gwerthfawrogi'r ddwy ysgol a'u bod eisiau iddynt aros yn agored.



Yr oedd rhai pobl yn cefnogi'r cynnig am eu bod yn credu y gallai ddarparu:

- Adeilad ysgol newydd
- Cyfleusterau ac offer modern
- Amgylcheddau dysgu gwell
- Gwell adnoddau
- Ysgol fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried yr holl safbwyntiau hyn yn ofalus.

Beth Ddywedodd y Plant Wrthym?

Dywedodd y plant lawer o bethau cadarnhaol wrthym am eu hysgol, gan gynnwys:

- ✓ Eu hathrawon
- ✓ Eu ffrindiau
- ✓ Gweithgareddau a thripiau ysgol
- ✓ Cyfleoedd chwaraeon
- ✓ Yr amgylchedd cyfeillgar
- ✓ Teimlo'n rhan o gymuned eu hysgol.



Beth oedd Plant yn Feddwl a Allai fod yn Dda am Ysgol Newydd?

Yr oedd llawer o ddisgyblion yn meddwl y gallai ysgol newydd ddarparu:

- ✓ Ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau modern
- ✓ Adnoddau ac offer newydd
- ✓ Mwy o gyfleoedd chwaraeon
- ✓ Mwy o bobl i fod yn ffrindiau gyda nhw
- ✓ Cymuned ysgol fwy.

Beth oedd Plant yn Poeni yn ei Gylch?

Rhannodd llawer o blant bryderon am:



- Adael ffrindiau ac athrawon
- Teithio ymhellach i'r ysgol
- Symud i adeilad newydd
- Dod i arfer gyda newid
- Colli rhai o'r pethau y maent yn eu mwynhau am eu hysgolion presennol
- Teimlo'n nerfus yn ystod y cyfnod pontio.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y pryderon hyn yn bwysig.

Sut y Defnyddiwyd Safbwyntiau'r Plant?

Mae'r Cyngor wedi ystyried yr holl safbwyntiau a rannwyd gan blant a phobl ifanc.

Yr oedd llawer o'r pryderon a godwyd gan ddisgyblion yn debyg i'r rheiny a godwyd gan rieni, gofalwyr ac aelodau o'r gymuned.

Mae'r Cyngor yn cydnabod, os symudir ymlaen â'r cynnig, y bydd yn bwysig:

- Cefnogi lles plant
- Helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel ac wedi eu cynnwys
- Cefnogi cyfeillgarwch
- Cynllunio'n ofalus ar gyfer unrhyw newid
- Diogelu nodweddion cadarnhaol cymunedau'r ddwy ysgol bresennol.

Beth mae'r Cyngor yn ei Feddwl Nawr?



Ar ôl ystyried holl ymatebion yr ymgynghoriad, nid yw asesiad y Cyngor o'r cynnig wedi newid.

Mae'r Cyngor yn credu mai'r cynnig yw'r ffordd fwyaf priodol o hyd i:

- Wella amgylcheddau dysgu
- Lleihau nifer y lleoedd gweigion yn yr ysgolion
- Ategu cynaliadwyedd hirdymor
- Sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas ar gyfer dysgwyr y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod hefyd y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a pharheir i ystyried y rhain trwy gydol y broses.

Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Bydd Cabinet Cyngor Sir y Fflint yn ystyried Adroddiad yr Ymgynghoriad.

Bydd y Cabinet wedyn yn penderfynu a symudir ymlaen i gam nesaf y broses.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen, cyhoeddir Hysbysiad Statudol a bydd gan bobl gyfle arall i wrthwynebu'n ffurfiol cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Diolch



Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Gwrandawyd ar eich safbwyntiau a'u cynnwys yn Adroddiad yr Ymgynghoriad.

Drwy rannu eich barn, rydych wedi helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall beth sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yn Saltney.

Cyngor Sir y Fflint

Tîm Moderneiddio Ysgolion

Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
School Planning and Provision